CAW44 Unigolyn

# Ymgynghoriad ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

**Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer Craffu Cyfnod 1 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).**

## Amdanoch Chi

Unigolyn

## 1. Egwyddorion cyffredinol y Bil

### 1.1 A ydych yn cefnogi egwyddorion y Bil Cwricwlwm ac Asesu(Cymru)?

Nac ydw

### 1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,500 o eiriau)*

Nid oes angen gwneud y Saesneg yn orfodol - yn ymarferol bydd pob disgybl yn dod yn rhugl yn Saesneg beth bynnag.  Mae y Bil fel y mae yn gwneud i'r Gymraeg ymddangos yn eithriad i'r hyn y dylai pob disgybl ei dderbyn.  Yn ogystal mae angen sicrhau fod Hanes Cymru yn cael ei ddysgu yn gyflawn - annigonol yw dweud fod yna sawl hanes ac y gallai ysgolion ddewis a dethol.  Mae angen trosolwg o hanes Cymru gyfan er mwyn dehongli'r lleol.

### 1.3 A ydych yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r hyn y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Mae angen deddfwriaeth gadarn i sicrhau fod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg pan fydd yn gadael yr ysgol, heb fod hynny'n ddibynnol ar leoliad yr ysgol. Yr un modd am Hanes Cymru.

## 2. Gweithredu'r Bil

**2.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 3.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Tra'n cymeradwyo amrywiaeth lleol, dylid osgoi cyfle i ysgolion anwybyddu elfennau pwysig.

**2.2 A ydych yn credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Nac ydwyf.

## 3. Canlyniadau anfwriadol

**3.1 A ydych yn credu bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 4.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Mae pob deddfwriaeth efo canlyniadau anfwriadol!

## 4. Goblygiadau ariannol

**4.1 A oes gennych farn am oblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os nad oes, ewch i gwestiwn 5.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

-

## 5. Pwerau I wneud is-ddeddfwriaeth

**5.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am addasrwydd y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'i nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os nad oes, ewch i gwestiwn 6.1.**

(*byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau.*)

-

## 6. Ystyriaethau eraill

### 6.1 A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil hwn?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,000 o eiriau)*

Mae yna ddiffyg amgyffred yn y Bil am hunaniaeth Cymru, a'r pwysigrwydd o amddiffyn a datblygu hynny yng nghyd-destun diwylliant torfol Saesneg, a chyfryngau cyhoeddus sy'n llunio agenda yn nhermau'r Deyrnas Gyfunol.